

ATODIAD / ENCLOSURE
F

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
CYFARFOD:	PWYLLGOR SAFONAU
DYDDIAD:	12.03.2015
TEITL YR ADRODDIAD:	NODYN BRIFFIO AR GYFER SWYDDOGION AC AELODAU'R CYNGOR SIR
ADRODDIAD GAN:	AWENA WALKDEN
PWRPAS YR ADRODDIAD:	DIWEDDARU'R PWYLLGOR SAFONAU AR NODIADAU BRIFFIO A DDRAFFTIWYD YN DDIWEDDAR GAN YR ADRAN GYFREITHIOL

Yn dilyn ein cyfarfod dyddiedig 11 Medi 2014, gwnaed gwaith pellach gan yr Adain Gyfreithiol i ddatblygu nodiadau briffio ychwanegol ar faterion yr oeddem ni'n credu y byddai'n fuddiol cael eglurhad pellach yn eu cylch.

Yn ddiweddar, mae'r Adain Gyfreithiol wedi drafftio'r nodiadau briffio isod :-

1. Canllawiau Lleol Drafft ar y Côd Ymddygiad i Swyddogion (Atodiad 1)
2. Nodyn Briffio ar Ganiatadau Arbennig (Atodiad 2)

Canllawiau lleol drafft ar y Côt Ymddygiad i Swyddogion

Rhydd y Côt Ymddygiad i Swyddogion drosolwg byr o'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan swyddogion y Cyngor ac fe'u gwelir yn rhan 5.2 y Cyfansoddiad <http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad-rhan-5-codau-a-phrotocolau/cyfansoddiad-52-cd-ymddygiad-swyddogion?redirect=false> .

Yn dilyn y Cwestiynau a Ofynnir yn Aml ynghylch Rhoddion a Lletygarwch a baratowyd ar gyfer aelodau llynedd, teimlwyd bod angen eglurhad pellach ynghylch rhoddion a lletygarwch i swyddogion (ynghyd â diddordebau eraill).

Mae'r Canllawiau drafft eisoes wedi cael eu cylchredeg i'r Penaethiaid Gwasanaeth ar gyfer ymgynghori yn eu cylch ac mae'r drafft yn Atodiad 1 yn ymgorffori eu sylwadau.

Rydym hefyd wedi diweddarau'r ffurflenni y dylai swyddogion eu defnyddio i ddatgan eu diddordebau. Nid ydym wedi ymgynghori ynghylch y ffurflenni hyn eto, fodd bynnag, mae'r fersiynau drafft ynghlwm yn Atodiad 1 er eich sylwadau.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r dogfennau hyn ar fewnrwyd y Cyngor ar ôl cwblhau'r dasg hon a'u hanfon ar Y Ddolen i'r swyddogion ar gyfer eich sylwadau.

Caniatâd Arbennig

Yn y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Safonau, cytunwyd y dylid paratoi Canllawiau ar gyfer aelodau ynghylch caniatâd arbennig.

Rydym yn amgáu'r Canllawiau ar ffurf ddrafft ar gyfer eich sylwadau.

Argymhelliad

Bod y Pwyllgor Safonau:-

1. Yn cymeradwyo / diwygio'r dogfennau drafft yn Atodiadau 1 a 2
2. Awdurdodi eu cylchredeg i swyddogion ac aelodau

ATODIAD / APPENDIX

1

Canllawiau Lleol Drafft ar y Côt Ymddygiad i Swyddogion

Mae Adran 5.2 ein Cyfansoddiad yn cynnwys Côt Ymddygiad i Swyddogion <http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/councillors-democracy-and-elections/constitution/constitution-part-5-codes-and-protocols/constitution-52-officers-code-of-conduct/>.

Yn y Canllawiau hyn, rhoddir cyngor ar elfennau allweddol y Côt, gan ganolbwyntio ar ymddygiad, datganiadau o ddiddordeb a rhoddion a lletygarwch.

1. EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae'r Cyngor Sir yn ymrwmo i'r egwyddorion statudol mewn perthynas ag ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus ac yn eu cymeradwyo fel yr egwyddorion sylfaenol a ddylai roddi arweiniad i bob Aelod a Swyddog o ran eu hymddygiad.

Yn ôl yr egwyddorion statudol, rhaid i bob un ohonom gyflawni ein dyletswyddau gyda sylw dyledus i:-

1. Anhunanoldeb
2. Gonestrwydd
3. Uniondeb a phriodoldeb
4. Cyfreithlondeb
5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd
7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Bod yn agored
9. Atebolrwydd
10. Arweinyddiaeth

2. Y SAFONAU A DDISGWYLIR

- Mae'n ddyletswydd arnom i lynu wrth y gyfraith ac ymddwyn bob amser yn unol â'r ymddiriedaeth gyhoeddus a roddwyd ynom ac mewn modd sy'n cynnal hyder y cyhoedd yn y Cyngor.
- Mae dyletswydd gyffredinol arnom i weithredu er budd y Cyngor yn ei gyfanrwydd a'r gymuned leol.
- Ynghyd ag osgoi amhriodoldeb gwirioneddol, dylem osgoi ymddangos fel petaem yn ymddwyn yn amhriodol.

- Lle mae gennym ddiddordebau preifat sy'n gwrthdaro â'n dyletswydd gyhoeddus, rhaid i ni ddatrys y gwrthdaro hwn o blaid y budd cyhoeddus.
- Dylem wneud datganiadau o ddiddordeb perthnasol mewn perthynas ag unrhyw ddiddordebau ariannol neu anariannol a llai wrthdaro gyda diddordebau'r Cyngor pryd bynnag y bydd gwrthdrawiad posib rhwng ein diddordebau personol a'r budd cyhoeddus. Dylid cyflwyno datganiadau o fath i'n rheolwr/goruchwyliwr ar y ffurflen "datgan diddordeb" sydd ynghlwm yn Atodiad 1.
- Ni ddylem wneud, neu bod yn gysylltiedig ag unrhyw benderfyniadau swyddogol neu broffesiynol ynghylch materion y mae gennym ddiddordeb personol ynddynt a dylem ddatgan unrhyw ddiddordebau personol sydd gennym mewn perthynas â materion a drafodir yng nghyfarfodydd y Cyngor ar y ffurflen "Datgan Diddordeb mewn Cyfarfodydd" sydd ynghlwm yn Atodiad 2.
- Dylem barchu rôl ein Haelodau Etholedig a'u trin gyda chwarteisi. Mae'r Cyngor hwn wedi mabwysiadu Protocol i reoli'r berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion a dylem llynu wrth ei ddarpariaethau. Mae ar gael yn: (<http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/councillors-democracy-and-elections/constitution/constitution-part-5-codes-and-protocols/constituion-531-relationship-protocol-for-members-and-officers/>)
- Wrth wneud penodiadau, dyfarnu contractau, neu gynnal unrhyw fusnes arall, dylem sicrhau fod ein penderfyniadau yn cael eu gwneud yn ôl teilyngdod yn unig.

Dylem sicrhau fod deunydd cyfrinachol, gan gynnwys deunydd ynghylch unigolion, yn cael ei drin yn unol â'r safonau disgwylidig a nodir ym Mholisi Diogelu Data'r Cyngor (<http://monitor.anglesey.gov.uk/corporate-resource/information-governance-data-protection/data-protection/data-protection-policy-information-on-security-policies-and-related-documents/>)

3. DIDDORDEBAU PERSONOL – ARIANNOL (COFRESTR SEFYDLOG)

Dylai'r holl Swyddogion sy'n dal swyddi â chyfyngiad gwleidyddol neu swyddi sensitif*¹ gofrestru eu diddordebau personol mewn perthynas â:

- chyflogaeth allanol;
- contractau gyda'r Cyngor;
- unrhyw hawliau dros dir yn ardal y Cyngor;
- tenantiaethau eiddo'r Cyngor;
- bod yn berchennog ar fusnes (neu â chyfranddaliadau mewn busnes) sydd â lleoliad busnes, neu sy'n berchen ar dir, yn ardal y Cyngor (ac eithrio cyfranddaliadau sy'n werth llai na £25,000 neu sy'n llai na 1% o gyfalaf y cyfranddaliadau).

¹ * Dylai swyddogion daro golwg ar eu disgrifiadau swydd er mwyn cadarnhau a yw eu swyddi â'r dynodiadau hyn

Pennaeth y Gwasanaethau Democraidd fydd yn cadw'r Gofrestr. Dylai'r manylion yn y Gofrestr fod yn gyfredol a bydd angen diweddarau'r gofrestr drwy Bennaeth y Gwasanaethau Democraidd.

Mae'r gofrestr ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio yn ystod oriau'r swyddfa.

Cynghorir gweithwyr sy'n dal swyddi â chyfyngiad gwleidyddol neu swyddi sensitif^{*1} hefyd i ddatgan diddordebau ariannol uniongyrchol aelodau agos o'r teulu² ac aelodau eu haelwydydd (e.e. gŵr/gwraig/partner, plant, rhieni, brodyr a chwiorydd), lle mae'r diddordebau hynny'n wybyddus iddynt a'u bod yn gwrthdaro gyda diddordebau'r Awdurdod.

4. DIDDORDEBAU PERSONOL - ERAILL

Yn ogystal, anogir gweithwyr sy'n dal swyddi â chyfyngiad gwleidyddol neu swyddi sensitif^{*1} i gofrestru, a datgan lle mae hynny'n briodol (h.y. mewn cyfarfodydd/cyfathrebiadau eraill pan mae'r diddordeb yn berthnasol) eu haelodaeth neu gysylltiad â chlybiau, cymdeithasau, unrhyw sefydliadau nad ydynt ar agor i'r cyhoedd a chyrrff gwirfoddol.

Cedwir Cofrestr i'r pwrpas hwn gan Bennaeth y Gwasanaethau Democraidd a bydd ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio.

5. DATGAN DIDDORDEB – POB SWYDDOG

SYLWER OS GWELWCH YN DDA: Nid oes ond angen i chi ddatgan diddordebau personol sy'n gwrthdaro, neu a all wrthdaro, gyda'ch dyletswyddau i'r Cyngor. Os ydych yn ansicr o gwbl, yna dylech ddatgan eich diddordeb gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol neu drafod y mater hwn gyda'ch rheolydd.

Yn ychwanegol at hyn, wrth gyflawni ein cyfrifoldebau fel swyddogion y Cyngor, dylem ddatgan ar unwaith unrhyw ddiddordebau ariannol neu bersonol perthnasol (fel y cânt eu diffinio yn 3 a 4 uchod) i'n rheolwyr llinell, lle bynnag y byddai methiant i wneud hynny yn tanseilio hyder y cyhoedd yn ein gweithgareddau (e.e. mewn cyfarfodydd / cyfathrebiadau eraill pan mae'r diddordeb yn berthnasol). Dylai rheolwyr llinell wneud trefniadau eraill yn yr amgylchiadau hyn, h.y. ni ddylem gymryd rhan neu ddylanwadau ar unrhyw fater sy'n golygu y gallem ni (neu ein teuluoedd/cyfeillion) elwa arnynt neu gollu allan o'u herwydd. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw swyddog gan gynnwys y rheiny nad oes ganddynt swyddi â chyfyngiad gwleidyddol neu swyddi sensitif. Efallai y bydd angen hefyd llenwi'r ffurflen "datgan diddordeb" yn Atodiad 1 a 2 a gall eich rheolydd llinell eich cynghori pa un a all fod yn briodol.

Gall ddiddordebau neu ymwneud a allai wrthdaro gyda diddordebau'r Cyngor fod yn rhai ariannol ac / neu anariannol, er enghraifft:

- Partneriaeth mewn busnes.

² Byddai aelodau agos o'r teulu'n cynnwys gŵr neu wraig/partner, brawd neu chwaer, nain neu daid, cefndryd a chyfneitherod cyfan, modryb, ewythr, nithod a neiaint.
CC-017792-AP/250346 (238501)

- Gwaith a wneir i unrhyw berson neu sefydliad ac eithrio fel un sy'n gweithio i'r Cyngor.
- Gwasanaethau fel aelod o grŵp, pwyllgor neu fwrdd y gall ei waith wrthdaro gyda'r Cyngor.
- Ceisiadau a gyflwynwyd gan berthnasau neu gyfeillion ar gyfer eu hystyried gan y Cyngor, h.y. tendro am waith.
- Yn Llywodraethwr Ysgol yn yr Awdurdod.

Os oes gennych ddiddordeb personol mewn unrhyw fater sy'n codi mewn unrhyw gyfarfod yr ydych yn adrodd iddo neu'n cynghori (neu y gallwch gael cais i'w gynghori neu y gallwch fel arall ddylanwadu arno) unrhyw Gynghorydd(Gynghorwyr) yn y Cyngor, neu unrhyw drydydd parti, rhaid i chi ddatgan y diddordeb a pheidio â chymryd rhan yn y drafodaeth neu'r penderfyniad ar y mater. Bydd unrhyw ddatganiad a wneir mewn cyfarfod swyddogol yn cael ei gofnodi yn y cofnodion. Os yn briodol, dylid gwneud trefniadau i weithiwr arall fynychu ac adrodd /cynghori ar y mater. Un enghraifft fyddai cymryd rhan mewn cyfarfod mewn perthynas ag ysgol y mae eich mab neu ferch yn ei mynychu.

Os oes gennych ddiddordeb personol a allai wrthdaro gyda diddordebau'r Cyngor, yna ni chewch ond aros yn y cyfarfod a chymryd rhan yn y trafodaethau os yw'r person sy'n llywyddu yn y cyfarfod (ac ar ôl cael cyngor gan y Swyddog Monitro) yn fodlon y byddai i chi wneud hynny er budd y Cyngor neu'r bobl leol.

6. RHODDION A LLETYGARWCH

- Rhaid i ni ystyried y sefyllfa'n ofalus cyn derbyn unrhyw rodd bersonol neu gynigion o letygarwch. Yr egwyddor yw bod rhaid i ni osgoi rhoddi ein hunain mewn sefyllfa lle gallai derbyn rhodd neu letygarwch o'r fath gael ei ystyried fel rhywbeth a allai ddylanwadu ar ein penderfyniadau neu'n barn wrth ddyfarnu contractau, gwneud penodiadau, penderfynu ar geisiadau cynllunio ac ati.
- Mae gan y Cyngor Gofrestr ar gyfer cofnodi derbyn rhoddion a lletygarwch a rhaid i ni gofrestru rhoddion, a gwahoddiadau a dderbynnir, yn y Gofrestr honno; a gedwir gan Bennaeth y Gwasanaethau Democraidaidd.
- Dylem wrthod unrhyw roddion personol a chynigion o letygarwch os ydym yn meddwl y gallai hynny niweidio hyder y cyhoedd ynom ni neu'r Cyngor.
- Efallai y byddwn yn derbyn eitemau ewyllys da pan yn mynychu cynadleddau neu ar ymweliadau dinesig. Efallai y byddwn o bryd i'w gilydd yn derbyn dyddiaduron, pinnau ysgrifennu, calendrau ac ati. Nid oes angen cofrestru'r rhain. Dylid cofrestru unrhyw beth sy'n werth mwy na £10 neu y gellir yn rhesymol amcangyfrif ei fod yn werth mwy na hynny. Rydym yn cynghori hefyd y dylid, fel arfer dda, gofnodi unrhyw roddion/lletygarwch a dderbyniwyd sy'n werth llai na £10 gyda'ch rheolwr llinell.
- Gellir diffinio lletygarwch fel unrhyw beth ac eithrio'r cynnig o ddiodydd di-alcohol a lluniaeth ysgafn. Ni ddylem ond derbyn lletygarwch os oes angen gwirioneddol i'r

Cyngor gael ei gynrychioli mewn achlysur neu ddigwyddiad. Po fwyaf “moethus” yw’r lletygarwch, pwysica’n y byd yw i ni fod yn ofalus.

- Wrth dderbyn lletygarwch, dylai Aelodau a Swyddogion fod yn arbennig o sensitif o ran yr amseriad mewn perthynas â phenderfyniadau y bydd y Cyngor o bosib yn eu gwneud ac a allai gael effaith fuddiol neu andwyol ar y sawl sy’n darparu’r lletygarwch.
- Lle mae angen mynd ar ymweliadau i archwilio offer, neu ymweliadau sy’n gysylltiedig â dyfarnu unrhyw gontract, dylai Aelodau a Swyddogion sicrhau fod y Cyngor yn talu costau unrhyw ymweliadau er mwyn osgoi rhagfarnu uniondeb unrhyw benderfyniadau a wneir wedyn i brynu.
- Ni ddylai Aelodau a Swyddogion ddefnyddio gwasanaethau contractwyr a gyflogir gan y Cyngor iddynt eu hunain ar gyfer prynu deunyddiau, llafur neu offer am bris cost, masnachol neu ostyngol.
- Mae lletygarwch a geir drwy fynychu cynadleddau a chyrsiau perthnasol yn dderbyniol lle mae’n amlwg bod y lletygarwch yn gorfforaethol yn hytrach na phersonol a lle nad yw lletygarwch o’r fath yn cael effaith ar unrhyw benderfyniadau o ran prynu.
- Dylid cael caniatâd ymlaen llaw gan reolwyr llinell i dderbyn lletygarwch a’i gofnodi yn y Gofrestr a gedwir gan Bennaeth y Gwasanaethau Democraidd.

7. RHESTR WIRIO (RHODDION A LLETYGARWCH)

Dylai’r rhestr wirio isod o gwestiynau eich helpu i benderfynu a ddylid derbyn neu wrthod yn gwrtais unrhyw rodd neu gynnig o letygarwch:-

- A yw’r person sy’n cynnig y rhodd, neu’r digwyddiad, yn arwyddocaol yn y gymuned neu’r ardal? Os ydyw, a yw gwrthod yn debygol o bechu?
- A oes disgwyl i chi fynychu oherwydd eich statws yn y gymuned neu’r ardal?
- A fydd eraill o statws tebyg yn y gymuned neu mewn cymunedau eraill yn mynychu?
- Beth yn eich barn chi, yw’r cymhelliant y tu ôl i’r gwahoddiad?
- A fyddai i chi dderbyn y gwahoddiad yn amhriodol mewn unrhyw fodd neu’n eich rhoddi dan bwysau mewn perthynas ag unrhyw fater cyfredol neu fater yn y dyfodol y bydd y Cyngor yn ymwneud ag ef?
- A fyddai modd i chi gyfiawnhau’r penderfyniad i’r Cyngor, y wasg a’r cyhoedd?
- A yw graddfa’r lletygarwch neu natur y rhodd, yn rhesymol ac yn dderbyniol?
- A ydyw’n debygol y bydd disgwyl i chi ymateb i’r lletygarwch ac os bydd, ym mha fodd?

- A ydych chi'n gyfforddus ynglŷn â'r penderfyniad?

8. LLYGREDD

1. Rhaid i chi fod yn ymwybodol ei bod yn drosedd dan Ddeddf Llwgwrwobrwyo 2010 i dderbyn neu roddi unrhyw rodd, fenthyciad neu wobr neu fantais yn eich capasiti swyddogol "am wneud, neu beidio â gwneud unrhyw beth" neu am "ffafrio neu anffafrio" unrhyw berson. Os gwneir honiad yn eich herbyn, bydd rhaid i chi ddangos na chafwyd unrhyw wobrwyon o'r fath drwy ddulliau llwgr.
2. Er eich diogelwch eich hun, os bydd rhywun yn cysylltu gyda chi mewn modd a ymddengys i chi neu a allai ymddangos i drydydd parti fel petai'n anelu at dderbyn rhyw fath o driniaeth ffafriol, neu mewn amgylchiadau amheus mewn perthynas â chontract, yna rhaid i chi roi gwybod i'ch rheolwr llinell.

9. PERTHYNAS GYDA CHONTRACTWYR

- Rhaid rhoi gwybod i'r rheolydd llinell perthnasol am unrhyw berthynas fusnes.
- Rhaid dyfarnu archebion a chontractau yn ôl teilyngdod, trwy gystadleuaeth deg, yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor.

<http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/councillors-democracy-and-elections/constitution/constitution-part-4-rules-of-procedure/constitution-49-contract-procedure-rules/>

<http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/councillors-democracy-and-elections/constitution/constitution-part-4-rules-of-procedure/constitution-48-financial-procedure-rules/> .

- Ni ddylid dangos unrhyw ffafriaeth arbennig tuag at fusnesau sy'n cael eu rhedeg, er enghraifft, gan ffrindiau, partneriaid neu berthnasau. Ni ddylid rhagfarnu yn erbyn unrhyw ran o'r gymuned leol.
- Dylai swyddogion sy'n ymwneud â'r broses dendro ac/neu ddelio gyda chontractwyr fod yn glir ynghylch y gwahaniad rhwng rôl cleient a chontractwr yn y Cyngor. Rhaid i Swyddogion sydd â chyfrifoldeb cleient a chontractwr fod yn ymwybodol o'r angen i fod yn atebol ac yn agored.
- Rhaid i Swyddogion mewn unedau contractwr neu gleient fod yn deg ac yn ddiuedd wrth ddelio gydag unrhyw gwsmeriaid, cyflenwyr, contractwyr ac isgontractwyr.
- NI ddylai Swyddogion sy'n cael gwybodaeth gyfrinachol ar dendrau neu gostau contractwyr mewnol neu allanol ddatgelu'r wybodaeth honno i unrhyw barti neu sefydliad heb awdurdod.
- Dylai Swyddogion sy'n ystyried prynu allan fel rheolwyr, cyn gynted ag y byddant wedi llunio bwriad pendant, roi gwybod i'r rheolydd llinell perthnasol a thynnu'n ôl o'r broses dyfarnu contractau.

- Dylai Swyddogion sicrhau nad ydynt yn dangos unrhyw ffafriaeth arbennig tuag at Swyddogion cyfredol neu Swyddogion sydd wedi gadael yn ddiweddar na'u partneriaid, perthnasau agos neu gydnabod o ran dyfarnu contractau i fusnesau y maent yn eu rhedeg neu eu cyflogi mewn capasiti lefel uwch neu lefel reoli.
- Yn unol ag Adran 117 Deddf Llywodraeth Leol 1972, rhaid i chi wneud datganiad ffurfiol am gontractau neu gontractau personol gyda'r Cyngor y mae gennych ddiddordeb ariannol ynddynt. Rhaid cofrestru datganiadau o'r fath ar y Ffurflen Datgan Diddordeb (Atodiad 1).

10. TORRI'R CÔD

Gellir delio gydag achosion o dorri'r Côt i Swyddogion dan Weithdrefn Ddisgyblu'r Cyngor <http://monitor.anglesey.gov.uk/at-work/conduct-at-work/disciplinary-procedure/> .



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

Hysbysiad o Fuddiant Personol / Notification of Personal Interest

Noder os gwelwch yn dda: Nid oes ond angen i chi ddatgelu diddordeb personol os yw'n gwrthdaro gyda'ch dyletswyddau yn y Cyngor neu os gall wrthdaro â nhw. Os nad ydych yn sicr, dylech ddatgelu eich diddordeb trwy ddefnyddio'r ffurflen hon neu drafod y mater gyda'ch rheolydd llinell.

Please note- you need only disclose a personal interest which conflicts, or may conflict, with your duties in the Council. If you are at all unsure, you should disclose your interest using this form or discuss this with your line manager.

Enw y Gweithiwr Employee Name	
Swydd Job Title	
Math o Ddatganiad / Type of Declaration	Manylion / Details
Perthynas/ Relationship: Cyngorydd/ <input type="radio"/> Councillor Contractwr/ <input type="radio"/> Contractor Gweithiwr/ <input type="radio"/> Employee Arall/ <input type="radio"/> Other	Enw / Name: Swyddogaeth / Post Title: Natur fy mherthynas gyda'r unigolyn/ Nature of my relationship to the named person: Manyldeb o unrhyw gysylltiad neu gwrthdaro rhwng buddiannau /Details of any potential contact/conflict of interest:
Gwasanaeth Service	

Buddiant personol neu aelodaeth o gyfluniant, busnes, partneriaeth, corf proffesiynol neu gymdeithas gyfrinachol megis; Corff Llywodraethol Ysgol, rôl mewn cyfluniant gwirfoddol, cysylltiad â busnes teuluol. /

Personal interest or membership of an organisation, business, partnership, professional body or secret society e.g. School Governing Body, voluntary organisation role, involvement in a family business.

Disgrifiad o fy muddiant / Description of my interest:

Enw a lleoliad yr cyfluniant o dan sylw (os yn cymwysiadol) / Name and location of organisation concerned (if applicable):

Dyddiad Cychwyn / Starting date:

Budd ariannol/ ymhlygiad / Financial benefit/ implication:

Manylion y camau a ellir eu cymryd i warchod buddiant y Cyngor /Details of steps that could be taken to protect the Council's interest:

Buddiant mewn tir o fewn y Sir

Cyfeiriad neu disgrifiad o dir neu eiddo yr ydych gyda fuddiant ynddo, natur y fuddiant a defnydd y tir.

Nodwch:

- (a) Dylid datgan buddiant fel rhydd-ddeiliad neu lesddaliwr am brydles o 12 mis neu fwy;
- (b) Dylid datgan buddiant fel deiliad opsiwn neu ddarpar brynwr;
- (c) Dylid datgan os ydych chi eich hun yn ceisio cadarnhau caniatâd cynllunio neu unrhyw ganiatâd neu benderfyniad gan y Cyngor ;
- (ch) Nid oes angen datgan buddion tir nag eiddo tu allan y Sir.

Interest in Land within the County

Address or description of land or property in which you have an interest, the nature of the interest and the use to which the land is put.

Please note:

- (a) Interests as a freeholder or leaseholder for a lease of 12 months or more should be declared;
- (b) Interest as an option holder or prospective purchaser should be declared;
- (c) Interests by which you are directly concerned in seeking planning permission or some other consent or decision of the Council should be declared;
- (d) You need not declare interest in land or property outside the County.

<p>Gwybodaeth ychwanegol/ Unrhyw ddatgeliad arall</p> <p>Rhowch unrhyw wybodaeth arall y dylech ei ddatgelu am eich buddiannau busnes, cyllid neu bersonol.</p> <p>Further information/ Any other declaration</p> <p>Please give any further information you may wish to record about your business, financial or personal interests.</p>			
<p>Hysbysu newidiadau</p> <p>Notification of Changes</p>		<p>Rwyf yn ymgymryd i hysbysu'r Cyngor o unrhyw newidiadau a all ddigwydd o fewn 28 diwrnod o'r newid, gan gyflwyno Ffurflen 1 newydd i fy rheolwr llinell.</p> <p>I undertake to notify the Council in writing of any changes which may occur within 28 days from the date of the change, by submitting a new Form 1 to my line manager.</p>	
<p>Dyddiad/ Date</p>		<p>Llofnod/ Signature</p>	



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

Hysbysiad o Fuddiant Personol mewn cyfarfod /
Notification of Personal Interest in a meeting

Noder os gwelwch yn dda: Nid oes ond angen i chi ddatgelu diddordeb personol os yw'n gwrthdaro gyda'ch dyletswyddau yn y Cyngor neu os gall wrthdaro â nhw. Os nad ydych yn sicr, dylech ddatgelu eich diddordeb trwy ddefnyddio'r ffurflen hon neu drafod y mater gyda'ch rheolydd llinell.

Please note- You need only disclose a personal interest which conflicts or may conflict, with your duties in the Council. If you are at all unsure, you should disclose your interest using this form or discuss this with your line manager.

Enw y Gweithiwr Employee Name	
Swydd Job Title	
Gwasanaeth Department	

Rwyf i, yr uchod, yn eich hysbysu yn ysgrifenedig o fuddiant personol a ddatgelais yn y cyfarfod canlynol:

I give you written notification of a personal interest disclosed by me at the following meeting:

.....(enw'r pwyllgor/name of meeting)

a gynhaliwyd ar / held on.....(dyddiad y cyfarfod / date of meeting)

Manylion y buddiant personol / Detail of Personal Interest:

Llofnod / Signature		Dyddiad/ Date	
------------------------	--	------------------	--

Cyngor Sir Ynys Môn – Isle of Anglesey County Council

**Cofrestr Derbyn Rhoddion neu Letygarwch - Swyddogion
Register of Gifts or Hospitality - Officers**

Dyddiad/Date	Enw/Name	Manylion y Rhoddion/Lletygarwch Details of Gifts or Hospitality	Derbyniwyd gan: Received from:

Arwyddwyd/Signed _____

Dyddiad/Date _____

ATODIAD / APPENDIX 2

Canllawiau i Aelodau mewn perthynas â Chaniatâd Arbennig

Mae'r Canllawiau hyn yn egluro:

- (a) yr hyn a olygir gan ganiatâd arbennig;
- (b) pryd y gall fod yn briodol i gyflwyno cais am ganiatâd arbennig
- (c) pwrpas ac effaith caniatâd arbennig
- (d) y weithdrefn ar gyfer cyflwyno cais am ganiatâd arbennig
- (e) y meini prawf y dylid eu defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd arbennig
- (f) telerau posibl caniatâd arbennig

Beth yw caniatâd arbennig

Caniatâd arbennig ydyw caniatâd a roddir gan y Pwyllgor Safonau sy'n caniatáu i Aelod gymryd rhan mewn trafodaeth neu wneud penderfyniad hyd yn oed mewn achosion pan fydd gan yr Aelod ddiddordeb sy'n rhagfarnu sef y math o ddiddordeb a fyddai fel arfer yn golygu na fyddant yn cael siarad neu y byddant yn gorfod gadael y cyfarfod.

Pryd y gall fod yn briodol gofyn am ganiatâd arbennig?

Os bydd gan Aelodau etholedig (neu Aelodau cyfetholedig) ddiddordeb rhagfarnus mewn mater i'w drafod mewn cyfarfod o'r Cyngor, yna, yn unol â'r Côt Ymddygiad, ni fedrant siarad neu bleidleisio ar y mater a rhaid iddynt adael yr ystafell tra mae'r mater yn cael ei drafod.

Yn y Côt Ymddygiad i Aelodau, mae darpariaeth ar gael yn golygu y gall Aelod gyda diddordeb rhagfarnus, dan rai amgylchiadau fodd bynnag, gymryd rhan yn y drafodaeth a'r bleidlais. Mae'r rhain yn cynnwys aelodaeth ar rai cyrff allanol, pleidleisio ar lwfansau Aelodau, Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn mynychu Pwyllgorau Sgriwtini pan fydd eu penderfyniadau'n agored i sgriwtini ac ymarfer eu hawliau i siarad yn gyhoeddus yr un modd ag unrhyw aelod arall o'r cyhoedd. Ceir manylion llawn ym mharagraffau 12, 13 a 14 y Côt Ymddygiad i Aelodau.

Fodd bynnag, os oes gan Aelod diddordeb rhagfarnus, nad yw'r Côt Ymddygiad yn caniatáu iddo/iddi siarad yn ei gylch, gallant hyd yn oed wedyn ofyn am ganiatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau ac efallai y caniateir y cais ar yr amod y gellir sefydlu un neu ragor o'r rhesymau statudol.

Pwrpas ac effaith Caniatâd Arbennig

Mewn rhai amgylchiadau penodol, gall y Pwyllgor Safonau roddi caniatâd arbennig i Aelod sy'n golygu y gall yr Aelod gymryd rhan ym musnes y Cyngor mewn achos lle byddai hyn fel arfer wedi ei wahardd oherwydd bod ganddynt ddiddordeb rhagfarnus yn y pwnc dan drafodaeth. Os rhoddir caniatâd arbennig, ac ar yr amod bod yr

Aelod yn gweithredu o fewn telerau eu caniatâd arbennig ac yn ystod oes y caniatâd arbennig hwnnw, yna ni fydd cymryd rhan yn y mater yn gyfystyr â thorri'r Cod.

Y Drefn ar gyfer Gofyn am Ganiatâd Arbennig

Dylai unrhyw Aelod sy'n dymuno cyflwyno cais am ganiatâd arbennig lenwi'r Ffurflen Gais (ynghlwm/dolen ??) a'i chyflwyno i'r Swyddog Monitro. Bydd y Swyddog Monitro yn cynorthwyo ac yn cynghori unrhyw Aelod sy'n dymuno gwneud cais o'r fath ac er bod ceisiadau am ganiatâd arbennig fel arfer yn cael eu gwneud ar sail unigol, mae'r Swyddog Monitro, o'r bryd i'w gilydd, a chyda chaniatâd yr holl Aelodau a effeithiwyd, wedi rhyddhau caniatâd arbennig ar ffurf "bloc".

Bydd unrhyw gais yn cael ei ystyried gan Is-bwyllgor o'r Pwyllgor Safonau a fydd fel arfer yn cael ei drefnu cyn gynted ag sy'n bosibl ond gan lynu wrth y gofynion o ran y cyfnod rhybudd angenrheidiol lleiaf a ganiateir yn gyfreithiol.

Byddai o gymorth petai'r ymgeisydd yn gallu rhoi mwy o amser ond derbynnir y bydd angen delio gyda cheisiadau o'r fath yn gyflym yn aml.

Gofynnir i aelodau roddi sylw dyledus i Raglenni Gwaith eu Pwyllgorau er mwyn ceisio rhagweld unrhyw ganiatadau arbennig y byddant efallai yn dymuno ymgeisio amdanynt.

Y Meini Prawf i'w Defnyddio wrth Benderfynu ar Geisiadau am Ganiatâd Arbennig

Mae yna naw sail statudol y gall y Pwyllgor Safonau roddi caniatâd arbennig ar eu cyfer ac mae'r rhain ynghlwm yn Atodiad 2. I grynhoi, y rhesymau yw:-

- Bod o leiaf hanner Aelodau'r Cyngor/Pwyllgor perthnasol yn rhannu'r un diddordeb.
- Byddai diffyg cyfranogiad o du'r rhai Aelodau'n cael effaith ar gydbwysedd gwleidyddol ac yn sgiwio'r penderfyniad.
- Mae'r diddordeb yn un cyffredin neu ni fyddai'r ffaith bod yr Aelod yn cymryd rhan yn andwyol i hyder y cyhoedd neu byddai o fydd i breswylwyr yr ardal iddo gymryd rhan.
- Mae gan yr Aelod swyddogaeth neu arbenigedd penodol.

Wrth ddod i benderfyniad ynghylch cais am ganiatâd arbennig, bydd y Pwyllgor Safonau'n cymryd i ystyriaeth rai ffactorau penodol a fydd yn cynnwys yr isod:-

- natur diddordeb yr Aelod;
- y graddau y gellid bod wedi osgoi gorfod gwneud y cais neu wneud trefniadau eraill;
- yr angen i gynnal hyder y cyhoedd ym musnes y Cyngor;

- i ba raddau y mae peth budd personol i'r Aelod ac i ba raddau y byddai budd i'r cyhoedd yn sgil rhyddhau'r caniatâd arbennig;
- canlyniad posibl unrhyw bleidlais;
- yr angen i redeg busnes y Cyngor yn effeithlon ac yn effeithiol;
- unrhyw amgylchiadau perthnasol eraill.

Telerau Posibl ar gyfer Caniatâd Arbennig

Gall caniatâd arbennig fod yn gyfyngedig neu'n anghyfyngedig e.e. efallai y bydd yn caniatáu i Aelod siarad ar fater ond nid i bleidleisio. Efallai y bydd yn cael ei ganiatáu pryd bynnag y bydd y mater yn codi yn ystod gweddill tymor yr Aelod yn y swydd neu efallai y bydd yn cael ei gyfyngu i un cyfarfod neu nifer o gyfarfodydd ar ddyddiadau penodol neu bwnc arbennig.

Nodyn

Mae gan y Pwyllgor Safonau ddisgresiwn i ganiatáu neu i wrthod unrhyw gais. Gall y Pwyllgor hefyd ganiatáu cais yn rhannol hyd yn oed mewn amgylchiadau lle mae'r cais yn un am ganiatâd arbennig llawn. Mae clywed gan yr ymgeisydd yn bwysig yn aml a byddid yn cynghori unrhyw Aelod sy'n cyflwyno cais am ganiatâd arbennig (er nad yw hwn yn hanfodol o safbwynt technegol) i ymddangos gerbron y Pwyllgor Safonau pan fydd yn ystyried cais yr Aelod.

Rhaid i unrhyw Aelod sydd wedi cal caniatâd arbennig ddatgan natur a bodolaeth y caniatâd arbennig cyn cychwyn unrhyw drafodaeth y mae'r caniatâd arbennig yn ymwneud a hi. Bydd copi o'r caniatâd arbennig yn cael ei gadw gyda'r Gofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau a dylid cyfeirio ato yng nghofnodion unrhyw gyfarfod ffurfiol y mae'r Aelod wedi dibynnu ar y caniatâd arbennig ynddo.

PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR SIR YNYS MON

**CAIS I'R PWYLLGOR SAFONAU AM GANIATÂD ARBENNIG YN UNOL Â
SI 2001 Rhif 2279 (W. 169)**

1. **Enw'r Ymgeisydd:**
2. **Cyfeiriad yr Ymgeisydd:**
3. **Awdurdod Perthnasol:**
4. **Pwyllgor/Pwyllgorau:**
5. **Diddordeb Gofrestrwyd yn unol ag Adran 81 (1) & (2) Deddf Llywodraeth Leol 2000
(os yw'n berthnasol):**
6. **Manylion am y diddordeb y ceisir y Caniatâd Arbennig yn ei gylch:**
7. **Seiliau Statudol dros wneud y Cais**
8. **Dyddiad cyflwyno'r cais :**
9. **Angen Penderfyniad erbyn :**

Arwyddwyd Dyddiad

- A. **Penderfyniad y Pwyllgor Safonau :**
- B. **Dyddiad y Penderfyniad:**
- C. **Partïon i'w hysbysu:**

**CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG GAN Y PWYLLGOR SAFONAU AR GYFER AELOD
O'R CYNGOR**

Rhowch fanylion llawn isod os gwelwch yn dda i gefnogi eich cais am ganiatâd arbennig. Dylech gyfeirio at y ddogfen "Canllawiau mewn perthynas â Chaniatâd Arbennig". Os oes arnoch angen cymorth i gwblhau'r ffurflen cysylltwch os gwelwch yn dda gyda Lynn Ball, Swyddog Monitro ar 01248 752586 neu e-bost i lynn.ball@ynysmon.gov.uk

Enw'r Cynghorydd:	
Cyfeiriad:	
Awdurdod Perthnasol:	
Math y cyfarfod (enw'r pwyllgor os yw'n berthnasol):	
Dyddiad y cyfarfod (os yw'n hysbys):	
Yr eitem ar y rhaglen y gofynnir am ganiatâd arbennig yn ei chylch:	
Lefel y caniatâd arbennig y gofynnir amdano (h.y. i siarad yn unig neu siarad a phleidleisio):	
Seiliau statudol y dibynnir arnynt i gefnogi'r cais:	
Manylion y diddordeb rhagfarnus:	

<p>Ydych chi'n gofyn am ganiatâd arbennig ar gyfer un cyfarfod yn unig neu am gyfnod hwy? Os am gyfnod hwy, nodwch gyfnod os gwelwch yn dda. (O.N. mae'r holl ganiatadau arbennig a roddir yn dod i ben adeg yr etholiadau nesaf i'r Cyngor):</p>	
<p>Rheswm/rhesymau i gefnogi eich cais a pham yr ydych yn ystyried y dylai'r Pwyllgor Safonau rhoi caniatâd arbennig (defnyddiwch ddalen ar wahân os oes angen):</p>	
<p>Dyddiad erbyn pryd y bydd angen y penderfyniad:</p>	
<p>Llofnod:</p>	<p>Dyddiad:</p>



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 Rhif 2279 (Cy. 169)

2001 No. 2279 (W. 169)

LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU

LOCAL GOVERNMENT ,
WALES

Rheoliadau Pwyllgorau Safonau
(Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru)
2001

The Standards Committees (Grant
of Dispensations) (Wales)
Regulations 2001

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note does not form part of the Regulations)

O dan adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Ddeddf") mae'n ofynnol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru ("awdurdodau perthnasol") fabwysiadu cod ymddygiad ar gyfer aelodau ac aelodau cyfetholedig sy'n gorfod ymgorffori unrhyw ddarpariaethau gorfodol o unrhyw god ymddygiad enghreifftiol a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 50(2) o'r Ddeddf.

County and county borough councils, community councils, fire authorities and National Park authorities in Wales ("relevant authorities") are required by section 51 of the Local Government Act 2000 ("the Act") to adopt a code of conduct for members and co-opted members which must incorporate any mandatory provisions of any model code of conduct issued by the National Assembly for Wales under section 50(2) of the Act.

Mae adran 81(1) a (2) o'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i'r swyddog monitro ym mhob awdurdod perthnasol sefydlu a chadw cofrestr o fuddiannau aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod a bod darpariaethau gorfodol y cod enghreifftiol sy'n gymwysadwy i bob awdurdod perthnasol yn gorfod ei gwneud yn ofynnol i aelodau ac aelodau cyfetholedig pob awdurdod gofrestru unrhyw fuddiannau ariannol ac eraill a bennir yn y darpariaethau gorfodol yng nghofrestr yr awdurdod hwnnw.

Section 81(1) and (2) of the Act provides that the monitoring officer of each relevant authority must establish and maintain a register of interests of the members and co-opted members of the authority and that the mandatory provisions of the model code applicable to each relevant authority must require the members and co-opted members of each authority to register in that authority's register such financial and other interests as are specified in the mandatory provisions.

O dan adran 81(3) a (4) o'r Ddeddf rhaid i'r darpariaethau gorfodol hynny ei gwneud yn ofynnol hefyd i aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol sydd â buddiant o'r fath ei ddatgelu cyn cymryd rhan mewn unrhyw fusnes gan yr awdurdod sy'n berthnasol i'r buddiant a gwneud darpariaeth i atal yr aelod neu'r aelod cyfetholedig hwnnw rhag cymryd rhan mewn unrhyw fusnes gan yr awdurdod y mae'r buddiant a ddatgelwyd yn berthnasol iddo neu i gyfyngu ar y rhan y mae'n ei chymryd ynddo.

Under section 81(3) and (4) of the Act those mandatory provisions must also require a member or co-opted member of a relevant authority who has such an interest to disclose it before taking part in any business of the authority which relates to it and make provision for preventing or restricting the participation of that member or co-opted member in any business of the authority to which the disclosed interest relates.

Mae adran 81(4) o'r Ddeddf yn darparu nad yw unrhyw gyfranogiad gan aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol mewn unrhyw fusnes a waherddir gan y darpariaethau gorfodol yn fethiant i gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod os yw'r aelod neu'r aelod cyfetholedig wedi gweithredu yn unol â gollyngiad rhag y gwaharddiad a gafodd ei ganiatáu gan bwyllgor safonau'r awdurdod yn unol â rheoliadau a wneir o dan is-adran (5).

Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi'r amgylchiadau y caiff pwyllgorau safonau'r awdurdodau perthasol ganiatáu gollyngiadau o'r fath odanynt.

Section 81(4) of the Act provides that any participation by a member or co-opted member of a relevant authority in any business which is prohibited by the mandatory provisions is not a failure to comply with the authority's code of conduct if the member or co-opted member has acted in accordance with a dispensation from the prohibition granted by the authority's standards committee in accordance with regulations made under subsection (5).

These regulations prescribe the circumstances in which standards committees of relevant authorities may grant such dispensations.

2001 Rhif 2279 (Cy. 169)

2001 No. 2279 (W. 169)

LLYWODRAETH LEOL,
CYMRULOCAL GOVERNMENT,
WALESRheoliadau Pwyllgorau Safonau
(Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru)
2001The Standards Committees (Grant
of Dispensations) (Wales)
Regulations 2001*Wedi'u gwneud* 21 Mehefin 2001*Made* 21st June 2001*Yn dod i rym* 28 Gorffennaf 2001*Coming into force* 28th July 2001

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 81(5) ac (8) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(a).

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the power given to it by section 81(5) and (8) of the Local Government Act 2000(a).

Enw, cychwyn, cymhwyso a dehongli**Name, commencement, application and interpretation**

1.- (1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 28 Gorffennaf 2001.

1.- (1) The name of these Regulations is the Standards Committees (Grant of Dispensations) (Wales) Regulations 2001 and they shall come into force on 28th July 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(2) These Regulations apply to Wales only.

(3) Yn y Rheoliadau hyn -

(3) In these Regulations -

mae "aelod" ("*member*") yn cynnwys aelod cyfetholedig;

"interest" ("*buddiant*") means an interest which is required to be registered in the relevant authority's register of interests;

ystyr "awdurdod perthnasol" ("*relevant authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, cyngor cymuned, awdurdod tân neu awdurdod Parc Cenedlaethol;

"member" ("*aelod*") includes a co-opted member;

ystyr "buddiant" ("*interest*") yw buddiant y mae'n ofynnol ei gofrestru yng nghofrestr buddiannau'r awdurdod perthnasol;

"relevant authority" ("*awdurdod perthnasol*") means a county or county borough council, a community council, a fire authority or a National Park authority;

ystyr "corff gwirfoddol" ("*voluntary organisation*") yw corff (heblaw awdurdod lleol neu gorff cyhoeddus arall) sy'n cynnal ei weithgareddau heblaw ar gyfer gwneud elw;

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Local Government Act 2000; and

acystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000.

"voluntary organisation" ("*corff gwirfoddol*") means a body (other than a local authority or other public body) whose activities are carried on otherwise than for profit.

Yr amgylchiadau lle gellir caniatáu gollyngiadau

2. Caiff pwyllgor safonau awdurdod perthnasol ganiatáu gollyngiadau o dan adran 81(4) o'r Ddeddf -

(a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;

(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;

(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;

(ch) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(d) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

(dd) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;

(e) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;

(f) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu

(ff) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu.

Circumstances in which dispensations may be granted

2. The standards committee of a relevant authority may grant dispensations under section 81(4) of the Act where -

(a) no fewer than half of the members of the relevant authority or of a committee of the authority (as the case may be) by which the business is to be considered has an interest which relates to that business;

(b) no fewer than half of the members of a leader and cabinet executive of the relevant authority by which the business is to be considered has an interest which relates to that business and either paragraph (d) or (e) also applies;

(c) in the case of a county or county borough council, the inability of the member to participate would upset the political balance of the relevant authority or of the committee of the authority by which the business is to be considered to such an extent that the outcome would be likely to be affected;

(d) the nature of the member's interest is such that the member's participation in the business to which the interest relates would not damage public confidence in the conduct of the relevant authority's business;

(e) the interest is common to the member and a significant proportion of the general public;

(f) the participation of the member in the business to which the interest relates is justified by the member's particular role or expertise;

(g) the business to which the interest relates is to be considered by an overview and scrutiny committee of the relevant authority and the member's interest is not a pecuniary interest;

(h) the business which is to be considered relates to the finances or property of a voluntary organisation of whose management committee or board the member is a member otherwise than as a representative of the relevant authority and the member has no other interest in that business provided that any dispensation shall not extend to participation in any vote with respect to that business; or

(i) it appears to the committee to be in the interests of the inhabitants of the area of the relevant authority that the disability should be removed provided that written notification of the grant of the dispensation is given to the National Assembly for Wales within seven days in such manner as it may specify.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

21 Mehefin 2001

21st June 2001

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

D. Elis-Thomas

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p. 38.

(a) 1998 c. 38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2001 Rhif 2279 (Cy. 169)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Rheoliadau Pwyllgorau Safonau
(Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru)
2001

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 No. 2279 (W. 169)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

The Standards Committees (Grant
of Dispensations) (Wales)
Regulations 2001

© Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.00

W/321/07/01

ON

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090284-X



9 780110 902845